WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o'r Trefniadau i Gynllunio Arbedion – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1469A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag adrannau 17 a 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan dîm a oedd yn cynnwys Katherine Simmons, Samantha Clements, Lisa Williams, Mark Jones a Sara-Jane Byrne o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae’r Cyngor wedi cryfhau’r trefniadau i lunio ac i gyflawni cynlluniau arbedion, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio strategaeth ariannol tymor canolig y gellir ei chyflawni

Adroddiad cryno 4

Beth wnaethom ei adolygu a pham? 4

Beth wnaethom ei ganfod? 4

Cynigion gwella 5

Adroddiad manwl

Mae’r Cyngor wedi cryfhau’r trefniadau i lunio ac i gyflawni cynlluniau arbedion, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio strategaeth ariannol tymor canolig y gellir ei chyflawni 6

Mae’r Cyngor wedi pennu rhai cynigion arbedion dangosol ar gyfer cyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio cynigion ar gyfer 2020-21 a thu hwnt 6

Mae’r Cyngor wedi cryfhau’r trefniadau i lunio cynigion i wneud arbedion cyllidebol, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i sicrhau bod yr amserlenni i’w cyflawni mor gywir â phosibl 8

Mae'r graddau y cafodd cynlluniau arbedion eu cyflawni wedi amrywio mewn blynyddoedd blaenorol, ond mae'r Cyngor wedi cyflawni’r rhan fwyaf o gynlluniau arbedion 2018-19 ac mae angen nawr iddo ddefnyddio ei drefniadau cryfach i sicrhau bod y sefyllfa well yn parhau 10

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth wnaethom ei adolygu a pham?

1 Roedd ein hadroddiad am gynllunio arbedion a roddwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2017[1] yn cynnwys cynnig gwella a oedd yn galw arno i gryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol drwy:

- sicrhau bod cynigion arbedion yn cael eu datblygu'n llwyr a'u bod yn cynnwys amserlenni realistig i'w cyflawni cyn eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol;
- pennu cynigion arbedion dangosol ar gyfer cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

2 Ym mis Mai/Mehefin 2019, buom yn asesu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i roi sylw i'n cynigion gwella, ac yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i gyflawni ei gynigion arbedion.

3 Fel rhan o raglen archwilio perfformiad 2019-20, byddwn yn adolygu cynaliadwyedd ariannol pob un o gynghorau Cymru. Bydd y gwaith hwn yn ymchwilio i strategaethau ariannol tymor canolig a thymor hir, rheoli'r gyllideb, pwysau costau, cynlluniau arbedion ac effeithlonrwydd, a maint y cronfeydd wrth gefn a'r modd y'u defnyddir. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn bwydo i'r gwaith hwnnw.

### Beth wnaethom ei ganfod?

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi rhoi sylw effeithiol i gynigion gwella adroddiad mis Mawrth 2017 am Gynllunio Arbedion?

5 Yn gyffredinol, canfuwyd: **Bod y Cyngor wedi cryfhau'r trefniadau i lunio ac i gyflawni cynlluniau arbedion, ond bod angen iddo wneud mwy o waith i lunio strategaeth ariannol tymor canolig y gellir ei chyflawni.**

6 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Bod y Cyngor wedi pennu rhai cynigion arbedion dangosol ar gyfer cyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig, ond bod angen iddo wneud mwy o waith i lunio cynigion ar gyfer 2020-21 a thu hwnt;
- Bod y Cyngor wedi cryfhau'r trefniadau i lunio cynigion i wneud arbedion cyllidebol, ond bod angen iddo wneud mwy o waith i sicrhau bod yr amserlenni i'w cyflawni mor gywir â phosibl;
- Bod y graddau y cafodd cynlluniau arbedion eu cyflawni wedi amrywio mewn blynyddoedd blaenorol, ond bod y Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, Cynllunio Arbedion – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Mawrth 2017

gynlluniau arbedion 2018-19 a bod angen nawr iddo ddefnyddio ei drefniadau cryfach i sicrhau bod y sefyllfa well yn parhau.

## Cynigion gwella

7 Nid ydym wedi pennu unrhyw gynigion gwella eraill yn sgil yr adolygiad dilynol hwn. Fel y nodir ym mharagraff 3 uchod, byddwn yn parhau i ymchwilio i'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn ystod ein hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol a gynhelir yn ddiweddarach eleni.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r trefniadau i lunio ac i gyflawni cynlluniau arbedion, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio strategaeth ariannol tymor canolig y gellir ei chyflawni

### Mae'r Cyngor wedi pennu rhai cynigion arbedion dangosol ar gyfer cyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio cynigion ar gyfer 2020-21 a thu hwnt

8 Wrth inni ddod i'r casgliad hwn, canfuwyd:

- Bod y Cyngor wedi diweddaru Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23 (y Strategaeth) a rhoi adroddiad am hyn i'w aelodau fel rhan o broses pennu cyllideb 2019-20 ym mis Chwefror 2019.
- Bod y diweddariad i'r Strategaeth yn pennu'r gostyngiadau gofynnol i'r gyllideb yn y senario orau, y senario fwyaf tebygol a'r senario waethaf ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2022-23 ar sail amcanestyniadau o'r cyllid a fydd ar gael.
- Bod dadansoddiad manwl o gynigion y gyllideb a wnaed bryd hynny fesul categori risg (coch, melyn neu wyrdd) yn tanlinellu bod y cynigion i leihau'r gyllideb yn cwmpasu'r holl arbedion gofynnol a bennwyd ar gyfer 2019-20, ond bod diffyg o ryw £21m mewn blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn gyfwerth â 61% o'r gostyngiadau a gynigiwyd i'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd fel y dangosir yn Arddangosyn 1 isod. Rydym yn cydnabod bod data Arddangosyn 1 yn darlunio'r sefyllfa ar adeg benodol ac rydym yn derbyn y bydd wedi newid fel rhan o gylch cynllunio parhaus y Strategaeth.

Arddangosyn 1: statws coch, melyn neu wyrdd arbedion y gyllideb drwy gydol Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-2023

| Blwyddyn | GWYRDD Cynnig wedi'i lunio a gellir ei gyflawni | MELYN Cynnig yn cael ei lunio ond ceir risg o ran ei gyflawni | COCH Cynnig heb ei lunio'n llwyr a cheir risg uchel o ran ei gyflawni | Gostyngiadau i'r gyllideb a bennwyd hyd yma | Gostyngiadau i'r gyllideb heb eu llunio hyd yma | Cyfanswm gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| 2019-20 | 3,024 | 2,703 | 1,894 | 7,621 | 0 | 7,621 |
| 2020-21 | 37 | 1,040 | 2,603 | 3,680 | 7,072 | 10,732 |
| 2021-22 | 0 | 975 | 584 | 1,559 | 6,960 | 8,519 |
| 2022-23 | 0 | 900 | 0 | 900 | 7,409 | 8,309 |
| Cyfanswm | 3,061 | 5,618 | 5,081 | 13,760 | 21,421 | 35,181 |
| % o'r cyfanswm | 9% | 16 | 14% | 39% | 61% | 100% |

Ffynhonnell: Dyfyniad o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Chwefror 2019[2]

- Yn ei adroddiad diweddaru am y Strategaeth, cydnabu'r Cyngor fod angen mwy o wybodaeth am nifer o gynigion 2020-21 ymlaen, bod angen eu dadansoddi ymhellach ac nad oeddent yn ddigon aeddfed i'w cynnwys yn y Strategaeth bryd hynny. Ymhlith y cynigion sy'n cael eu hystyried mae:
  - Trawsnewidiad digidol ehangach gwasanaethau'r Cyngor
  - Datblygu arbedion effeithlonrwydd ymhellach o ran swyddogaeth y landlord corfforaethol
  - Cyfleoedd i gynhyrchu incwm
  - Gostyngiadau pellach i nifer y cyflogeion
  - Camau posibl i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg ôl-16
  - Cydweithio â phartneriaid i warchod cyfleusterau cymunedol cynaliadwy
- Mae'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol hefyd wedi ymrwymo i geisio canfod o leiaf 50% o'r gostyngiadau i'r gyllideb drwy ddefnyddio adnoddau'n ddoethach yn hytrach na lleihau ansawdd neu lefel gwasanaethau. Gan gydnabod ei bod yn gynyddol anodd cyflawni hyn dros gyfnod, bwriedir i'r camau i ddefnyddio adnoddau'n ddoethach gynnwys:
  - Adolygiad o'r gwasanaethau cymorth busnes
  - Arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cydweithredol

[2] Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23**, Chwefror 2019, tudalen 20

  - Adolygiad o’r trefniadau contractiol
  - Newidiadau o ran cyllid cyfalaf
  - Ailstrwythuro'r trefniadau staffio a rheoli swyddi gwag yn llym
- Roedd swyddogion y Cyngor yn deall bod angen pennu arbedion cyllidebol drwy gydol cyfnod y Strategaeth, ond roeddent yn cydnabod bod yr ymgysylltu rhyngddynt a’r aelodau ynghylch cynigion y gyllideb yn ymwneud bron yn gyfan gwbl â chyllideb y flwyddyn nesaf i fodloni’r gofynion ariannol uniongyrchol.
- Mae’r Cyngor wedi dechrau ystyried a fyddai modd pennu'r gyllideb drwy broses ddwy flynedd. Mae’r Cyngor hefyd wedi dechrau mapio effaith y gostyngiad yr amcangyfrifir y bydd angen ei wneud i’r gyllideb ar weithlu’r Cyngor a’i wasanaethau yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, mae’r rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar yn natblygiad y cynlluniau hyn.

## Mae’r Cyngor wedi cryfhau’r trefniadau i lunio cynigion i wneud arbedion cyllidebol, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i sicrhau bod yr amserlenni i’w cyflawni mor gywir â phosibl

9 Wrth inni ddod i’r casgliad hwn, canfuwyd:

- Bod y broses o lunio cynigion arbedion cyllidebol wedi cychwyn yn gynharach. Cyflwynwyd y dull o bennu cyllidebau cyfarwyddiaethau a chynllunio senarios ariannol ar gyfer 2019-20 i’r Cabinet a’r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Roedd yn ofynnol i’r cyfarwyddiaethau gyflwyno’u cynigion ar gyfer 2019-20 erbyn mis Mehefin 2018, rhyw ddeufis yn gynharach na’r blynyddoedd blaenorol.
- Mae’r amser ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer y broses hon yn rhoi mwy o gyfle i’r swyddogion a’r aelodau lunio a thrafod cynigion. Er enghraifft, ers proses pennu cyllideb 2019-20, mae Panel Ymchwilio a Gwerthuso’r Gyllideb wedi cymryd rhan yn y broses yn gynharach a bu modd iddo weld yr holl wybodaeth am y cynigion er mwyn rhoi adborth ystyrlon.[3]
- Cytunwyd yn gynnar iawn ar ddull ‘Un Cyngor’ lle ceir targedau effeithlonrwydd ar gyfer cyllidebau pob cyfarwyddiaeth (1% y flwyddyn ar hyn o bryd) i ategu cydberchnogaeth.
- Ar ôl caniatáu ar gyfer targedau effeithlonrwydd o 1% ar draws y Cyngor, aeth y Cyngor ati i flaenoriaethu camau i gyflawni ei dair blaenoriaeth gorfforaethol (cefnogi economi lwyddiannus, helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol, a defnyddio adnoddau’n ddoethach). Yna, dyrannwyd y

[3] Panel sy’n cael ei arwain gan yr aelodau ac sy’n cynnwys aelodau o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yw Panel Ymchwilio a Gwerthuso’r Gyllideb. Mae’n cynorthwyo’r Cyngor i lunio cynigion ar gyfer cyllideb y flwyddyn ganlynol drwy asesu’r cynigion, rhoi her adeiladol a gwneud argymhellion i’r Cabinet.

diffyg a oedd yn weddill yn y gyllideb i'r meysydd hynny nad oeddent yn cefnogi'r camau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

- Sefydlodd y Cyngor gronfa wrth gefn ar gyfer lleihau'r gyllideb yn 2016-17. Ar ôl dod i gytundeb diweddar â'r swyddog Adran 151, defnyddiwyd y gronfa'n rhannol i liniaru diffygion o ran nifer o'r cynigion i leihau'r gyllideb. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r gronfa wrth gefn hon i gyflawni cynigion penodol i leihau'r gyllideb ar sail untro hyd nes bod mesurau amgen ar gael. Er enghraifft, fe'i defnyddiwyd gan y Cyngor ar gyfer ei gynnig i leihau cyllideb ei Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni yn 2018-19.
- Mae swyddogion ariannol yn chwarae mwy o ran yn y broses o lunio cynigion, gan herio eu cywirdeb a pha mor realistig yw'r amserlenni i'w cyflawni. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu statws coch, melyn neu wyrdd ei gynlluniau arbedion yn adroddiadau pennu'r gyllideb. Canfuwyd bod gan aelodau a swyddogion wybodaeth a dealltwriaeth dda o ran y dosbarthiadau coch, melyn a gwyrdd, a'u hystyr.
- Mae aelodau a swyddogion yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth gyflawni cynigion cyllidebol a all fod yn gymhleth. Os na ellir cyflawni'r arbedion a gynlluniwyd yn ôl y disgwyl yn ystod y flwyddyn ariannol, disgwylir i wasanaethau gael hyd i arbedion amgen i wneud iawn am hynny. Roedd hyn yn amlwg o'n hadolygiad o sampl bach o'r cynigion i leihau'r gyllideb yn 2019-20. Roedd statws coch, melyn neu wyrdd y Cyngor yn dangos y bydd y cynigion a ganlyn yn cael eu cyflawni'n rhannol yn ystod y cyfnodau arfaethedig:
  - SSW22 – Pennu arbedion pellach ym maes llyfrgelloedd, cyfleusterau diwylliannol a gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys adolygu nifer y cyfleusterau (llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol) a gostyngiadau i wasanaethau neu i oriau agor.
  - SSW24 – Ad-drefnu staff ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Yn achos yr arbedion a gyflawnwyd yn rhannol, canfuwyd bod modd priodoli hyn i'r ffaith na chafodd digon o amser ei neilltuo i ymgynghori â'r cyhoedd ac i negodi contractau â phartneriaid. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn sicr y byddai angen iddynt gael hyd i arbedion amgen pe na bai'n debygol y byddent yn cyflawni'r arbedion a gynlluniwyd.
- Buom hefyd yn ystyried rhai o'r cynigion i wneud arbedion a ystyriwyd yn ystod adolygiad 2017. Er bod y cynigion hyn wedi'u llunio cyn cyflwyno rhai newidiadau i brosesau pennu'r gyllideb, canfuwyd na chafodd/chaiff unrhyw un o'r cynigion ei gyflawni'n llwyr neu yn ystod y cyfnod arfaethedig.
- Yn ein hadolygiad yn 2017, nodwyd bod templed cynnig/crynodeb yn cael ei gyflwyno i'r tîm cyllid corfforaethol ar gyfer pob cynnig i wneud arbedion, ond nad oedd achos busnes wedi'i gostio'n llwyr (lle'r oedd yn briodol) na chynllun cyflawni ar gael i ategu pob cynnig pan gytunwyd ar y gyllideb flynyddol. Yn ein hadolygiad yn 2019, er inni ganfod bod pob un o'r cynigion


i leihau'r gyllideb a adolygwyd gennym yn cynnwys templed corfforaethol y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, nid oedd dau ohonynt yn cynnwys dogfennau a oedd yn egluro'n llwyr sut y câi'r arbedion eu cyflawni.

## Mae'r graddau y cafodd cynlluniau arbedion eu cyflawni wedi amrywio mewn blynyddoedd blaenorol, ond mae'r Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o gynlluniau arbedion 2018-19 ac mae angen nawr iddo ddefnyddio ei drefniadau cryfach i sicrhau bod y sefyllfa well yn parhau


10 Wrth inni ddod i'r casgliad hwn, canfuwyd:

- Bod record y Cyngor o gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd wedi bod yn amrywiol, fel y dangosir yn Arddangosyn 2 ac Arddangosyn 3.

Arddangosyn 2: gwerth y cynigion i leihau'r gyllideb a gyflawnwyd yn rhannol ac yn llwyr, 2015-2019



Arddangosyn 3: canran y cynigion i leihau'r gyllideb a gyflawnwyd yn rhannol ac yn llwyr, 2015-2019




Ffynhonnell: Daw'r ffigurau uchod o adroddiadau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 5 Gorffennaf 2016, 27 Mehefin 2017, 19 Mehefin 2018 a 18 Mehefin 2019.

- Dylai'r gwelliannau i'r trefniadau i bennu cynigion i leihau'r gyllideb a nodir ym mharagraff 9 uchod gynorthwyo'r Cyngor i bennu cynigion yn gynharach yn y dyfodol. Cyfrifoldeb y Cyngor yw mynd ati nawr i sicrhau bod ei drefniadau gwell yn cael yr effaith ofynnol a bod y trywydd o ran gwella maint yr arbedion a gyflawnir yn parhau mewn blynyddoedd i ddod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru